

CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 19eg o IONAWR 2026** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

YN BRESENNOL :

Cyng. J. Egryn Lewis - Cadeirydd

Cyng. Margaret A. Thomas

Cyng. J. Huw Owen

Cyng. Geraint Bebb

Cyng. Non W. Parry.

Cyng. Terry Jones

Cyng. Henry Jones

Cyng. Alwyn Parry

Cyng. Arwel Môn Hughes

HEFYD YN BRESENNOL :

Ms. Linda Powell - Swyddog

Gweinyddol

Cyng. Dylan W. Rees

Cyngor Sir

Cyng. Michael Davies

Cyfarfod yn cael ei Recordio

Cymdeithas Cyngorau Cymru

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod Llawn cyntaf o'r flwyddyn newydd 2026

25/204 Ymddiheuriadau :

Cynghorydd Sir : Cyng. Nicola Roberts, Cyng. Non Dafydd

25/205 Datganiad o Ddiddordeb : Dim

25/206 Heddlu Gogledd Cymru : Dim Cynrychiolydd

Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau fod neb o'r Heddlu wedi ymweld â'r Swyddfa yn ddiweddar. Dim trafodaeth.

25/207 Cyflwyniad "North and Mid Wales Association of Local Councils".

Cadeirydd yn croesawu Cyng. Michael Davies, Cyngor Tref Beaumaris, i'r Cyfarfod ac yn gofyn iddo arwain ar yr Eitem yma. Rhoddodd Cyng. Davies grynodedd byr o'i hanes fel Cynghorydd Tref ers 2008 ac ar hyn o bryd mae yn Aelod o Gyngor Tref Beaumaris.

Derbyniwyd yr Aelodau wybodaeth ynghylch a'r Gymdeithas uchod fel rhan o Becyn y Rhaglen Llawn. Cyflwynwyd Cyng. Davies grynodedd o waith y Gymdeithas, sydd yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn i drafod materion sy'n effeithio ar ein Cymunedau. Byddai'r aelodaeth eleni yn £50.00, gyda thal gostyngol o 50% am y flwyddyn gyntaf, gan olygu mai'r ffi aelodaeth eleni i'r Cyngor Tref fyddai £25.00. Daeth y Cyflwyniad i ben gyda sesiwn holi ac ateb, diolchodd y Cadeirydd i Cyng. Davies, a gadawodd y cyfarfod.

Yn dilyn trafodaeth, Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Non Parry yn Eilio dylid y Cyngor Tref fod yn Aelod o'r Gymdeithas uchod am flwyddyn, ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD derbyn y cynnig uchod a bydd Cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Gymdeithas yn cael ei enwebu yn ystod y Cyfarfod Llawn nesaf 09.02.2026.

- 25/208 Sedd Wag - Ward Cyngar :** Cadeirydd yn darllen cais wedi'i dderbyn gan Mrs Non Roberts-Smith yn rhoi crynodeb o'i chefnidir a diddordebau o fewn y Gymuned. Yn dilyn trafodaeth, Cyng. Geraint Bebb yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y cais. **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** derbyn y cais uchod a gwahodd Mrs Roberts-Smith i'r Cyfarfod Llawn ar 9fed o Chwefror 2026, i Arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd a derbyn Pecyn Llaw Lyfr Cynghorwyr.
- 25/209 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 08.12.2025 :**
Cyng. Geraint Bebb yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.
- 25/210 I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 08.12.2025 :**
1 Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa. Ni chodwyd unrhyw fater yn ystod y Cyfarfod o dan yr Eitem uchod.
- 25/211 Cynllunio :**
1 **I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 08.12.2025**
Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Cofnodion uchod. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.
- 25/212 I Dderbyn Argymhellion Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 12.01.2026 :**
Materion yn codi o'r Cofnodion uchod :
Eitem 25/199.1 : Precept Drafft ar Gyfer 2026-2027 : Cadeirydd yn adrodd, cytunwyd y Pwyllgor uchod godi'r Precept blynyddol 3%, ac yn argymhell hyn fel codiad y dylai'r Cyngor fabwysiadu am y flwyddyn 2026-2027. Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio i fabwysiadu'r cynnig uchod. **PENDERFYNWYD** codi'r Precept 3% am y flwyddyn 2026-2027. **PENDERFYNWYD YMHELLACH** i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir,
- 25/213 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebon Gan y Maer :**
Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :
1 **Cystadleuaeth Arddangosfa Ffenestr Nadolig – Rhagfyr 2025 :**
Enillwyr : 1af Siop Cain, Cyd 2ail HBA & Siop Elena, 3ydd Cigyddion J. Thomas & Sons.
2 **“The Section 6 Duty” / Y Ddyletswydd Adran 6 :** Disgwylir Adroddiad gan bob Cyngor Cymuned a Thref yn unol â'r uchod ar Fioamrywiaeth ac Ecosystemau, erbyn diwedd y flwyddyn. **PENDERFYNWYD** cynnwys Eitem ar Raglen y Cyfarfod Llawn nesaf i drafod ymhellach.
- 25/214 Materion yn Codi Gan Aelodau : Dim**
- 25/215 Adroddiad y Clerc :**
Oherwydd sefyllfa'r Clerc, nid oes Adroddiad i'w chyflwyno : Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :
1 **Ystafelloedd Newid, Lon Newydd :** Cyng. Margaret Thomas yn arwain ar yr Eitem yma. Hysbyswyd Cyng. Thomas i'r Aelodau, oherwydd materion iechyd a diogelwch, fod gwaith yn cychwyn ar y safle yma a bydd yr Adeilad ar gau o 19eg Ionawr 2026 am y cyfnod bydd y gwaith yn mynd ymlaen a bod Clwb Pel Droed Ieuencid yn ymwybodol o hyn. Mae'r gwaith gwella a drefnwyd, fel a ganlyn, ac yn obeithiol efallai bydd grant ar gael tuag at y gwaith :
 - **Tu Allan i'r Adeilad :** Gwaith cynnal a chadw;
 - **Tu Mewn i'r Adeilad :** Adroddiad “Asbestos” wedi'i dderbyn;

PARHAD 25/215

- Gwaith Trydanol;
- Gwaith Tacluso a Glanhawyr Proffesiynol.

Unwaith fydd y gwaith wedi'u cwblhau, bydd yn gyfle i ystyried defnyddio'r adeilad hefyd at ddefnydd amlbwrsas i'r Gymuned. Dim trafodaeth - derbyniwyd sylwadau Cyng. Thomas.

25/216 Adroddiadau Pwyllgorau Allanol :

- 1 Cyfarfod y Pump Tref CCTV 10.11.2025 - Cofnodion yn atodol** - Er gwybodaeth; Adborth o'r Cyfarfod gan Cyng. Margaret Thomas yn ymwneud ac Adolygiad i Gomisiynydd yr Heddlu ar wasanaeth CCTV Gogledd Cymru. Penderfyniad i'w ddisgwyl yn ystod Mis Ebrill.
- 2 Un Llais Cymru : Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn 20.01.2026**
Cyfarfod Blynnyddol 21.01.2026 :
Cofnodion Cyfarfod 08.10.2025 – Atodol – Er gwybodaeth
- 3 Cyfarfod Adfywio Llangefni 02.12.2025 - Cofnodion yn atodol** - Er gwybodaeth. Nodwyd yn y Cyfarfod bwysigrwydd i fwy nag un Cynghorydd Tref fynychu'r cyfarfodydd. Dim trafodaeth.
- 4 Cynghrair Canolbarth Mon Alliance – 29.01.2026 –** E-bost yn atodol – Dim Trafodaeth.

Cytunwyd i dderbyn y materion uchod.

25/217 Cyllid :

- 1 I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Tachwedd a Rhagfyr 2025 :**
Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau na chodwyd unrhyw gwestiynau trwy'r Swyddfa ynglŷn â'r uchod. Tynnwyd Cyng. Geraint Bebb sylw fod sawl taliad HMRC a Phensiwn Gwynedd wedi'u gwneud yn ystod mis Rhagfyr. Cyng. Margaret Thomas yn esbonio gwnaed y taliadau yn y ffordd yma oherwydd cyfnod salwch y Swyddog Ariannol Dros Dro, yn ystod Mis Tachwedd. Cyng. Thomas yn dwyn sylw, oherwydd amgylchiadau'r Swyddfa, derbyniwyd yng Nghyfarfod Llawn 08.12.2025, i wneud ymholiadau gyda Chyfrifwyr ar gyfer y gwaith yma, Cyng. Lewis yn adrodd fod y mater o dan sylw. Yn dilyn trafodaeth fer, Cyng. Geraint Bebb yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i edrych ar dynhau'r trefniadau talu. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod
- 2 Rhestr Cyfraniadau 2025-2026 :**
Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen y Cyfarfod i archwilio'r Rhestr. Bu dim trafodaeth a **PHENDERFYNWYD** derbyn y Rhestr yn ei chyfanrwydd a threfnu fod y taliadau yn cael eu gwneud cyn diwedd y flwyddyn ariannol yn Mis Mawrth.

**25/218 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :
Cynghorydd Geraint Bebb yn adrodd ar y canlynol :**

- Cyfarfod 20.01.2026 i edrych ar y Gyllideb;
- Ymgynghoriad Gwelliannau Ailgylchu a Gwastraff – Cyfarfod Agored 26.01.2026 yn y Llyfrgell; Sesiynau Galw Heibio ;
- Heneiddio yn Dda - Sesiwn yn Neuadd y Dref ar y cyd gyda sawl Mudiad – 04.02.2026;
- Rhybudd Storm.

Cyng. Alwyn Parry yn holi ynglŷn â Rhaglen Gwaith gosod Treth y Cyngor. Cyng. Bebb yn ateb bydd proses chew wythnos i wybod y cyfrifiadau yn union .

Cadeirydd yn diolch i Cyng. Bebb am ei fewnbwn

25/219 Gohebiaeth a Materion Newydd :

- 1 Llywodraeth Cymru - Swm Priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Terfyn Gwariant Adran 137 ar Gyfer 2026 - 2027 :** Gohebiaeth yn atodol ac yn ei dderbyn yn flynyddol. Dim trafodaeth.

25/220 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :
Materion wedi'u hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Rhagfyr 2025 :

- | | | | |
|----------|------------------------|----------|---------------|
| 1 | Un Llais Cymru | - | Derbyn |
| 2 | Materion Eraill | - | Derbyn |

25/221 I Ystyried Unrhyw Fater Brys gan y Maer :

- 1** Cadeirydd yn adrodd fod materion i'w hystyried ond oherwydd amgylchiadau, ni ellir symud ymlaen ar hyn o bryd. Dim trafodaeth.

25/222 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : Nos Lun 9fed o Chwefror 2026

7.20y.h. Diwedd y Cyfarfod

CYNG. J. EGRYN LEWIS
CADEIRYDD